# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD MAWRTH, 8 CHWEFROR 2022

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Dewi Owen, Mair Rowlands, Paul Rowlinson a Mike Stevens.

**Aelodau Cyfetholedig:** Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon).

**Swyddogion yn bresennol:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Llyr B. Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned) a Rhian George (Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:** Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg) a Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:** Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Owen Owens (Uwch Reolwr Ysgolion) a Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol).

Diolchodd y Cadeirydd i gyn-aelodau o'r pwyllgor hwn, y Cynghorwyr Rheinallt Puw a Dewi Roberts, am eu cyfraniad dros y blynyddoedd, a chroesawyd y Cynghorydd Elin Walker Jones yn ôl ar y pwyllgor.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Aled Evans ac Elfed P.Roberts a Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Cai Larsen fuddiant yn eitem 5 ar y rhaglen – Datblygu Fframwaith Adfywio ar gyfer Gwynedd, oherwydd ei fod yn Gadeirydd Bwrdd Cwmni Dre, sef cwmni hyd braich a sefydlwyd gan Gyngor Tref Caernarfon, ac sydd wedi delio gyda rhai o swyddogion Cyngor Gwynedd yng nghyd-destun y Fframwaith Adfywio. Roedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2021 fel rhai cywir.

## 5. DATBLYGU FFRAMWAITH ADFYWIO AR GYFER GWYNEDD

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i’r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned yn gwahodd y pwyllgor i graffu cyfeiriad y Fframwaith arfaethedig, a’r camau sydd wedi’u gwneud yn ystod Cyfnod 1 (Gosod y Sylfeini). Rhannwyd cyflwyniad ar sgrin hefyd i amlinellu prif agweddau’r adroddiad.

Rhoddwyd cyfle i’r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i’r Gwasanaeth am eu holl waith, a nodwyd y cafwyd cychwyn cadarn a chalonogol iawn i’r broses.
- Cefnogwyd cyfeiriad y gwaith a nodwyd bod y Gwasanaeth wedi adnabod nad yw pob ardal yr un fath, a bod angen cynlluniau gwahanol sydd wedi’u teilwrio i anghenion gwahanol yr ardaloedd hynny, a’u bod hefyd yn gweld y Cyngor yn bartner gyda’r cymunedau lleol.
- Croesawyd y ffaith bod y Gwasanaeth yn gweld y broses fel un â pharhad iddi, yn hytrach nag un digwyddiad.
- Nodwyd bod y datganiadau ardal yn glir, yn gryno ac yn addysgiadol, ac er yr amheuid dilysrwydd rhai ffigurau, roeddent yn fan cychwyn deialog pellach.
- Bod rhaid sicrhau deialog gyson ac effeithiol rhwng y Cyngor a chymunedau a mentrau cydweithredol gyda’r nod o adfywio’r bröydd.
- Bod peth pryder bod hwn eto’n un o’r adroddiadau hynny sydd ar y gweill am gyfnod, ac yn hel llwch wedyn.
- Y croesaid y ffaith bod yna 48 o randdeiliaid yn Llŷn, ond awgrymwyd y dylai’r Badau Achub gael eu cynnwys hefyd, gan eu bod yn weithgar iawn a chanddynt gyfraniad a llais ynglŷn ag adfywio bro.
- Nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at ysgolion cynradd / uwchradd, a gwrando ar lais yr ifanc.
- Nad oedd cyfeiriad at gyflogwyr mawr yn ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth, megis Portmeirion a Rheilffordd Ffestiniog, na chyfeiriad chwaith at Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru, fydd hefyd yn gweithio i adfywio ein hardaloedd.
- Bod y cynghorau cymuned a thref yn allweddol i’r drafodaeth, a bod angen i’r Cyngor hwn gydweithio â hwy a pheidio meddwl ei fod yn uwch na hwy, a’u bod hefyd yn medru codi arian i wario yn eu cymunedau eu hunain.
- Bod y defnydd o’r matrics RACI i’w groesawu, gan ei fod yn fodd o hwyluso ymgynghoriad lle mae yna lawer o randdeiliaid, drwy adnabod y rhanddeiliaid allweddol ar gyfer pobl agwedd.
- Mai un o fanteision y Fframwaith oedd bod modd i’r cymunedau gyfeirio at y dystiolaeth i’w cynorthwyo i ddenu nawdd a grant.

Mewn ymateb i’r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Fel rhan o’r trefniadau ar gyfer y gwaith ymgysylltu, byddai fersiynau papur o’r holl ddeunydd ar gael mewn gwahanol swyddfeydd. Roedd y gwasanaeth yn awyddus hefyd i weld cyswllt gyda’r llyfrgelloedd o ran darpariaeth a chefnogi petai aelodau o’r cyhoedd yn awyddus i gyfrannu at y gwaith, ond yn ansicr o’r trefniadau ar y platfform digidol. Byddai angen casglu data hefyd o ran manylion yr unigolion a’r grwpiau sy’n cyflwyno sylwadau er mwyn gwneud asesiad effaith cydraddoldeb ar y gwaith.

- Y cytunid bod yr amserlen eithaf heriol a osodwyd yn wreiddiol ar gyfer y gwaith wedi llithro rhywfaint oherwydd y pandemig. Bwriedid ymgymryd â'r gwaith ymgysylltu rhwng hyn a Mawrth, gyda thoriad dros y cyfnod cyn etholiad, gan ail-afael yn yr ymgysylltu o fis Mai tan fis Mehefin. Ni fyddai'r gwaith yn cael ei atal dros y cyfnod cyn etholiad, ac roedd tipyn o wybodaeth ar gael eisoes, fel bod modd cychwyn siapio'r cynlluniau gweithredu. Y nod oedd cwblhau'r cynlluniau gweithredu drafft ar gyfer yr 13 ardal erbyn diwedd yr haf.
- Bod prosiectau yn aml yn adlewyrchu gofynion canllawiau rhaglenni adfywio, ond yn wahanol i hynny, roedd ymgais yma i ofyn beth yw'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol, a defnyddio hynny er mwyn targedu grantiau. Roedd yna nifer o ffynonellau grant ar gael, a phe gellid profi bod yna angen yn lleol, a bod yna gefnogaeth yn lleol i ddatblygu'r cynlluniau, byddai hynny'n gosod sail ar gyfer cynlluniau o'r fath. Roedd yn debygol y byddai rhai o'r blaenoriaethau yn berthnasol i adrannau'r Cyngor hefyd.
- Y cytunid yn llwyr na ddymunid gweld y gwaith yn hel llwch dros y blynyddoedd, a dyna pam bod angen i hyn fod yn broses barhaus o gydweithio gyda'r mudiadau a'r bobl yn yr ardaloedd i gyd-gynhyrchu'r atebion, yn hytrach na bod yn un digwyddiad, gydag adroddiad ar ei ddiwedd.
- Nad oedd pob un o'r cynghorau cymuned a thref wedi ymateb i'r holiadur, a bod rhagor o waith i'w wneud eto ynglŷn â hynny, gan gydnabod bod y cyfnod ymateb wedi bod yn fyr.
- Y trefnwyd sesiynau drwy'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r ysgolion i holi barn disgyblion, e.e. drwy'r cynghorau ysgol, a gobeithid gallu adeiladu ar hynny yn ystod Gwedd 2.
- Yn sgil lansio'r platfform digidol a'r pecynnau papur, bwriedid ceisio cysylltu gyda sefydliadau lleol i ddwyn y gwaith i'w sylw, ac i wahodd sylwadau a thrafodaeth ar y blaenoriaethau lleol. Byddai Gwedd 2 yn dilyn patrwm eithaf tebyg i Gwedd 1, drwy ganolbwyntio ar 3-4 cwestiwn o ran yr hyn sy'n dda, beth sydd ddim cystal a beth ydi'r meysydd blaenoriaeth. Ceisid cysylltu gyda phob sefydliad a adnabuwyd yn y gobaith y byddai'r rhaglen rhwng hyn a Mai/Mehefin yn rhoi cyfle i bawb fwydo sylwadau i mewn i'r gwaith.
- O ran cydbwyso blaenoriaethau lleol gyda'r angen i gael tegwch ar draws Gwynedd gyfan, y rhagwelid bod dwy ran i'r Fframwaith, sef yr ochr sirol a'r gyfres o gynlluniau gweithredu/cynlluniau ardal. Yn hanesyddol, byddai rhywun wedi datblygu dogfen sirol a cheisio trosi hynny i gynlluniau lleol, ond roedd ymgais yma i wneud pethau ychydig yn wahanol, fel bod yr anghenion lleol yn bwydo i mewn i'r darlun sirol hefyd. O ran y cydbwysedd, credid y byddai rhai agweddau yn aros yn lleol, ond byddai angen gogwydd sirol i agweddau eraill, megis Trafnidiaeth, oherwydd bod y fframwaith trafnidiaeth yn debygol o fod yn cysylltu mwy nag un ardal. Roedd yn anodd iawn dweud sut i gael cydbwysedd, a byddai'n rhaid aros i weld beth fyddai'n deillio o'r gwaith o ran beth sy'n gwneud synnwyr iddo fod yn benodol ac yn lleol i ardal benodol, a beth sydd, o bosib', yn fwy sirol ei naws. Ni ragwelid rhaniad adnoddau, mae'n debyg, ond byddai'n rhaid aros i weld beth ddaw yn ôl.
- O ran yr ymatebion, rhagwelid y byddai llunio blaenoriaethau lleol yn broses fyddai'n galw am gonsensws. Yn amlwg, roedd rôl bwysig i sefydliadau statudol, fel cynghorau cymuned a thref, a byddai angen ystyried beth yw agweddau a barn y prif sefydliadau i gyd-fynd â hynny. Roedd yn anodd cynllunio ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai grwpiau bychain llafar geisio gor-ddylanwadu ar adborth, ond efallai bod angen hefyd ystyried y dystiolaeth yn y cyd-destun hwn. Er nad yn berffaith, gallai'r data hefyd fod o gymorth weithiau i weld os yw problem yn un sy'n cael ei diffinio yn yr ardal honno. Gan hynny, roedd yn debygol o fod yn gymysgedd o bethau, yn hytrach nag un ateb.
- Bod gan craffu rôl bwysig iawn yn natblygiad y Fframwaith Adfywio gan y byddai'n broses barhaus i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod, gyda chais am weld y cynlluniau gweithredu yn nes ymlaen yn y flwyddyn.**

## 6. AFLONYDDU MEWN YSGOLION

Croesawyd yr Aelod Cabinet a swyddogion yr Adran Addysg i'r cyfarfod.

## 6. AFLONYDDU MEWN YSGOLION

## 6a. AFLONYDDU AR BENAETHIAID YSGOLION, ATHRAWON A STAFF YSGOLION TRWY GYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn ymateb i gais gan aelodau'r pwyllgor am gyflwyniad ar aflonyddu ar athrawon a staff ysgolion trwy gyfryngau cymdeithasol. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhannu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i wneud a'i gyflawni gan yr Adran Addysg er mwyn bod o gymorth i ysgolion ddelio â sefyllfaoedd ble mae hynny'n digwydd.

Nododd y Pennaeth Addysg, ers paratoi'r adroddiad, bod y Grŵp Strategol Penaethiaid Uwchradd wedi trafod y sefyllfa ymhellach yn eu cyfarfod ar 2 Chwefror, a'i bod yn amlwg bod y sylw a roddwyd i'r mater wedi gweithio, gan fod y sefyllfa wedi tawelu a neb wedi adrodd achos o aflonyddu ers i'r llythyr i rieni / gofalwyr gael ei anfon. Byddai'r Adran yn parhau i fonitro a chefnogi petai achos yn dod i'w sylw.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Diolchwyd i'r Pennaeth Addysg am y llythyr i'r rhieni / gofalwyr, a nodwyd ei fod yn fyr, yn hollol glir ac yn creu naws briodol. Croesawyd y cyfeiriad at 'rai' disgyblion a 'rhai' achosion, a'r anogaeth gref i rieni wirio ffonau symudol eu plant.
- Nodwyd ei bod yn bechod bod adroddiad o'r fath yn gorfod cael ei baratoi o gwbl, ac awgrymwyd bod y defnydd o ffonau symudol yn gwaethygu problem sy'n bodoli'n barod.
- Mynegwyd pryder y gallai ysgolion golli staff o ganlyniad i ddigwyddiadau fel hyn, ac er bod yna reolau mewn ysgolion o ran defnyddio ffonau, ayb, roedd yna garfan fechan sy'n gwrando ar ddim, a'u rhieni ddim yn poeni am hynny chwaith.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod gan yr Adran bolisïau o ran y defnydd o ffonau symudol mewn ysgolion, a bod yr ysgolion yn debygol o edrych ar hynny eto yn sgil y digwyddiadau hyn. Nodwyd bod disgyblion yn ddibynnol iawn ar ffonau symudol y dyddiau hyn, ac yn hytrach na'u gwahardd, anogid defnydd priodol, aeddfed a chyfrifol ohonynt. Ni ddymunid cosbi pawb oherwydd ymddygiad lleiafrif bychan iawn, ond cadarnhawyd bod yr ysgolion yn atal unrhyw ddefnydd amhriodol o'r ffonau.
- Ei bod yn gynamserol ar hyn o bryd i wneud sylw ynglŷn ag adroddiad diweddar yn y wasg ynglŷn ag achos o aflonyddu yn un o ysgolion y sir, ac y byddai yna ddiweddariad maes o law yn sgil edrych ar y sefyllfa yn gyffredinol ac adolygu'r trefniadau.

## 6b. AFLONYDDU'N RHYWIOL MEWN YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg, ar gais y pwyllgor, yn sgil cyhoeddi adroddiad gan Estyn ym mis Rhagfyr 2021, *"Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon",* oedd yn ymateb i wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn 2021 pan welwyd gwybodaeth am aflonyddu rhywiol ar ddisgyblion ar y wefan "*Everybody's Invited*." Roedd y Pennaeth Addysg wedi gobeithio rhannu cyflwyniad ar sgrin hefyd i amlinellu prif agweddau adroddiad Estyn, ond oherwydd problemau technegol, bu'n rhaid cyflwyno'r wybodaeth ar lafar yn unig, a chytunwyd i anfon y sleidiau at yr aelodau yn dilyn y cyfarfod.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Nodwyd bod adroddiad Estyn yn nodi bod staff ysgolion yn gweithio'n galed i ymateb i'r materion hyn, ond dywed staff hefyd eu bod angen llawer mwy o adnoddau, hyfforddiant, cymorth ac amser.
- Pwysleisiwyd ei bod yn hollbwysig bod y mater hwn yn flaenoriaeth i ysgolion ar draws Gwynedd, a gan y Llywodraeth hefyd, a bod rhaid i addysgu am hyn fod yn rhan o'r cwricwlwm hefyd.
- Croesawyd y ffaith bod addysg rhyw ac addysg perthynas yn rhywbeth sy'n cael sylw bellach, a phwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod cefnogaeth ar gael i'r staff ar sut i ddelio â materion o'r fath.
- Nodwyd bod angen bod yn greadigol o ran sut orau i ddarparu'r adnoddau, o ystyried bod amser staff ac athrawon yn brin. Roedd modd gwneud hyfforddiant ar lein, ac efallai y dylid cael pencampwr ar draws ysgolion sy'n datblygu rhywfaint o arbenigedd, ac yn gallu cynghori yn ôl yr angen.
- Awgrymwyd bod disgwyliad i athro / ysgol fod yn bopeth i bawb bellach, yn hytrach nag yn darparu addysg yn unig.
- Nodwyd ei bod yn glir o'r adroddiad bod yr Adran yn cydnabod maint a difrifoldeb y broblem ac yn bwriadu gweithredu.
- Gan fod y cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno yn raddol, gan ddechrau o Flwyddyn 7 i fyny, bod rhaid gweithredu ar unwaith drwy'r ysgol gyfan, yn hytrach na disgwyl i newidiadau'r cwricwlwm ddwyn ffrwyth.
- Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet drosglwyddo neges i athrawon a holl staff yr ysgolion yn mynegi gwerthfawrogiad y pwyllgor hwn o'u gwaith arwrol yn sgil, nid yn unig y pandemig, ond hefyd y golled adnoddau dros y degawd diwethaf.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod yr ehangu ar y gwaith lles sy'n digwydd ar hyn o bryd yr union beth sydd angen digwydd er mwyn hyrwyddo perthnasedd iach, a bod y Cynllun Ysgolion Iach yn gynllun ardderchog i fod yn gwneud hynny.
- Bod proffil arolygiadau ysgolion yn dangos bod 'lles' wedi bod yn dda neu'n rhagorol yn mhob arolwg ar draws y sector ysgolion. Gan hynny, credid bod ein proffil yng Ngwynedd o ran rhoi bri a'r pwyslais priodol ar les, gan gynnwys y maes yma, yn briodol.
- Y byddai angen adnoddau ar gyfer rhyddhau staff i gyflawni'r hyfforddiant. Roedd hyn oll ar waith ac yn cael ei gymryd o ddifri' gan staff yr ysgolion. Cydnabyddid bod unrhyw ofyn newydd fel hyn yn gallu bod yn anodd, ond roedd y Llywodraeth wedi darparu nifer o grantiau i'r ysgolion ym maes lles yn sgil y pandemig, a gellid blaenoriaethu'r grantiau hynny i ariannu hyn. Diau y byddai angen rhagor na hynny o adnoddau, a byddai'r Adran a'r Cyngor yn mynd drwy'r gweithdrefnau priodol er mwyn sicrhau hynny, ond blaenoriaeth yr Adran a'r ysgolion ar hyn o bryd oedd sicrhau bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu, ac efallai bod y gost yn eilradd i hynny.
- Bod athrawon / staff ysgolion yn bopeth i bawb yn gynyddol, ac wedi ymdopi'n rhagorol â hynny, ac roedd y Pennaeth yn llwyr hyderus y byddai'r staff yn codi i'r her ar y cyd â'r Adran, ac yn gweithredu'n briodol i sicrhau nad oes yr un unigolyn yn ysgolion y sir yn teimlo eu bod yn agored i'r math yma o aflonyddu.
- Bod perthnasau iach a byw'n iach yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm newydd (meysydd dysgu a phrofiad) a byddai gan GwE rôl o ran cyflwyno hynny o fewn y cwricwlwm. O ran yr adnoddau, rôl yr awdurdod yn bennaf oedd hynny, gyda GwE yn darparu cefnogaeth drwy ddatblygiad cwricwlwm i fod yn hyfforddi athrawon a sicrhau deunyddiau priodol ar eu cyfer.
- Bod gwaith i'w wneud ar y cychwyn i sicrhau bod y maes yma'n cael y flaenoriaeth mae'n haeddu, ond maes o law, dylai ddod i mewn i ddarpariaeth arferol ysgolion, fel ei fod yn greiddiol yn y cwricwlwm.
- O ran aflonyddu hiliol, y cytunid bod aflonyddu o unrhyw fath yn aflonyddu, a'r neges sydd angen ei chyfleu yw 'addysg', 'parch', 'caredigrwydd' a 'goddefgarwch'. Bwriedid creu pecyn cynhwysol o gwmpas hynny er mwyn sicrhau nad yw aflonyddu'n digwydd, a bod disgyblion yn deall sut mae perthnasu gyda'i gilydd mewn perthynas fel ffrindiau, ayb, ac yn gwneud hynny'n briodol.

- Bod cwnsela yn yr ysgolion yn gallu bod yn faes anodd. Roedd yna brinder adnoddau (er bod y Llywodraeth wedi dyrannu arian ychwanegol ar gyfer hyn) ac roedd yr angen am y gwasanaeth ar gynnydd. Roedd hefyd yn faes anodd o ran recriwtio, yn enwedig mewn sir fel Gwynedd lle mae angen y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd rhai o'r ysgolion uwchradd wedi bod yn cysylltu'n ddiweddar i ofyn am fwy o adnodd, a cheisid blaenoriaethu hynny, lle'n bosib'. Nodwyd ymhellach y cafwyd cyswllt yn ddiweddar iawn gan gwmni allanol sy'n gallu darparu'n ddwyieithog, a bod bwriad i edrych yn yr hirdymor ar ddefnydd o gynlluniau prentisiaethau, profiad gwaith, ayb, mewn meysydd lle mae prinder arbenigeddau.
- Bod sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol yn yr ysgolion yn rhoi ffocws amlwg ar y maes yma. Sefydlwyd gwaelodlin eithaf da o safbwynt dealltwriaeth y staff o'r broblem, ond bod angen cryfhau, sicrhau adnoddau a hyfforddiant priodol a sicrhau cysondeb ar draws yr ysgolion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chroesawu'r gwaith, gyda chais am ddiweddariad fel mae amser yn mynd heibio.**

## 7. HYGYRCHEDD YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran hygyrchedd ysgolion, gan amlinellu sut y bu cyrraedd at y sefyllfa hon, gan edrych hefyd ar y ffordd ymlaen.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Awgrymwyd y byddai rhieni'n dewis anfon eu plentyn anabl i'r ysgol gymunedol leol, yn hytrach nag i'r ysgol ddynodedig, os o gwbl yn bosib', ac felly croesawyd y cynnydd oedd wedi digwydd yn y maes ers 2017.
- Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at rampiau a lifftiau, ond bod anabledd yn faes amrywiol iawn, a holwyd beth oedd darpariaeth y Cyngor o ran anableddau neu gyflyrau gwahanol megis awtistiaeth, anabledd dysgu, nam synhwyrol ayb.
- Croesawyd y defnydd o liwiau cyferbyniol ar y grisiau yn Ysgol Botwnnog.
- Nodwyd y dymunid cael sicrwydd, cyn anfon plentyn i ysgol ddynodedig, bod pob carreg yn cael ei throi i weld a yw'n fforddiadwy i ganiatáu i'r plentyn gael yr addysg ar ei stepen drws ei hun.
- Bod yr addasiadau hygyrchedd yn cael dylanwad positif ar yr ysgol gyfan, ac nid yn unig ar y plant hynny sydd ag anghenion dysgu neu anabledd.

Mewn ymateb i'r sylwadau, ac i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Mai'r maen tramgwydd mewn llawer o ysgolion oedd y gwaith ffisegol drud, a bod rhai pethau fwy o fewn cyrraedd yr addasiadau rhesymol y byddai disgwyl i ysgolion eu gwneud.
- Bod yna addasiadau heblaw'r rhai ffisegol a nodwyd yn yr adroddiad sy'n rhan o'r strategaeth hygyrchedd, e.e. y cydweithio rhwng rhieni a disgyblion ac ysgolion o ran gwneud addasiadau i'r cwricwlwm / amserlen, a newid defnydd ystafelloedd fel bod cwricwlwm mor llawn â phosib' ar gael i bob disgybl.
- O ran penderfynu ar y math o addasiadau ffisegol sydd eu hangen, y gofynnid i'r swyddogion Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH) edrych ar sefyllfa ac anghenion disgyblion unigol, a chyflwyno argymhellion ar sail hynny.
- Nad oedd gan yr Adran yr hawl i gyfeirio unrhyw blentyn i ysgol ddynodedig, ac roedd yn ddewis agored i rieni i ba ysgol y dymunent yrru eu plant. Roedd y mwyafrif llethol yn dewis gyrru eu plant i'w hysgol leol, a gellid edrych ar ddarparu mwy o wybodaeth i rieni o ran beth yw'r cyfleusterau sydd ar gael mewn gwahanol ysgolion.
- Bod rhieni'n rhan o'r sgwrs ynglŷn â'r posibilrwydd o wneud addasiadau mewn ysgol gyffredin. Roedd y Tîm ADY a CH yn ymwneud â disgyblion cyn oedran ysgol, ac yn

gwybod am ddisgyblion sydd am symud i mewn, ac roedd sgyrsiau'n digwydd rhwng rhieni a'r gwasanaethau canolog. Gan hynny, roedd dewis rhydd i rieni, ond gorau oll bod y dewis hwnnw'n seiliedig ar wybodaeth ynglŷn â beth yw natur yr ysgol(ion) y mae ganddynt ddiddordeb mewn anfon eu plant iddynt.

- Ei bod yn hawdd anghofio effaith bositif y newidiadau ar yr ysgol gyfan, a'i bod yn bwysig bod plant, waeth beth yw eu hanghenion, yn gallu dod i'r ysgol heb deimlo'n wahanol i'w cyfoedion mewn unrhyw ffordd, ac yn cael eu cynnwys ym mhopeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

## 8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG

Eglurodd y Cadeirydd nad oedd yna newidiadau i'r rhaglen waith ar hyn o bryd, ac felly nad oedd angen trafodaeth, na phleidlais ar y mater.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

______________________________

**CADEIRYDD**